

SUT I DRECHU DRYGIONI Â DAIONI

Nodyn i'r siaradwr:

Pwysleisiwch ddoethineb ac ymarferoldeb trechu drygioni â daioni. Dangoswch y gallwn yn aml wrth ddefnyddio barn ddoeth, osgoi drygioni, neu o leiaf ymdopi â sefyllfaoedd drwg

MAE DRYGIONI YN EFFEITHIO AR BAWB OHONOM (4 mun.)

Drygioni ydi unrhyw beth sy'n dod â phoen, tristwch, neu ofid (*it-1 772*)

Mae llawer yn profi drygioni ar ffurf salwch, damweiniau, trychinebau naturiol, siomedigaethau, anghyfiawnderau, gwahanol gollodion, siarad maleisus, a gweithredoedd difeddwl pobl eraill

Gall arwain at ddiodeffaint dirfawr, yn gorfforol ac yn emosiynol

Pan 'rydym yn profi drygioni, y duedd ddynol ydi troi yn ddiellon neu feio eraill, Duw hyd yn oed

Mae rhai yn talu'r pwyth, yn ceisio dial, a gwneud pethau'n waeth yn aml

Fodd bynnag, mae'r Beibl yn dangos ei bod hi'n bosib' trechu drygioni â daioni (Darllen Rhufeiniaid 12:21)

Cyn dysgu sut medrwn ni wneud hynny, fe drafodwn sut daeth drygioni i fod yn y lle cyntaf

TARDDIAD DRYGIONI (10 mun.)

Wedi iddo greu'r pâr dynol cyntaf, "Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn" (Gen 1:31)

Cynlluniwyd popeth i ddod â daioni tragwyddol i'r ddynoliaeth

'Roedd pren gwybodaeth da a drwg yn atgoffa Adda ac Efa o hawl Duw i benderfynu safonau ymddwyn (Gen 2:16, 17)

Petaen' nhw'n ufudd, 'fyddai na ddim niwed na drygioni yn dod i'w rhan nhw na'u hepil nhw

Twyllodd y Diafol Efa, ac yna anufuddhaodd Adda a'i wraig i Jehofah

Felly fe 'wnaethon' nhw ganiatáu iddyn nhw'u hunain gael eu trechu gan ddrygioni

O ganlyniad, daeth eu disgynyddion i etifeddu pechod a marwolaeth (Rhuf 5:12)

Wrth gwrs, 'dyw Satan ddim yn uniongyrchol gyfrifol am bob achos o ddrygioni sy'n dod i ran y ddynoliaeth

Gall hap a damwain, amherffeithrwydd, a barn annoeth ddod â chanlyniadau drygionus (Salm 51:5; Diar 11:27; Preg 9:11)

Er hynny, mae'n amlwg fod dylanwad Satan yn un o'r rhesymau pam mae annuwioldeb yn drech heddiw fel erioed o'r blaen

Mae llawer "heb ddim cariad at ddaioni"—prawf ein bod ni'n byw yn "y dyddiau diwethaf" (2Tim 3:1, 3)

Mae'r gorthrymder mawr gan hynny ar fin digwydd; bydd Duw yn ymyrryd i symud annuwioldeb ymaith o'r ddaear drwy ddifa'r rhai annuwiol!

Onid gweithred ddrygionus ar ran Duw ydi difa'r annuwiol?

Ie, ond yn y Beibl, 'dyw "drygionus" ddim bob amser yn gyfystyr â'r hyn sydd ddrwg

Yn yr Ysgrythurau Hebraeg, gall y gair a gyfieithir "drygionus" hefyd olygu 'trychinebus, tywyll, hyll' (*it-1 772*)

Ar adegau, mae Jehofah, wedi cyfiawn achosi i ddrygioni, neu drychineb, ddod i ran pobl anufudd (Gen 8:21; Deut 6:22)

Fe fydd y gorthrymder mawr, yn hytrach na bod yn foesol ddrwg, yn gwneud lle i 'nefoedd newydd a daear newydd lle bydd cyflawnder yn cartrefu' (2Pedr 3:7, 13)

TRECHU DRYGIONI Â DAIONI (28 mun.)

Yn y cyfamser mae'n rhaid inni ymdopi â llawer o ddrygioni

Yn aml gellir rhagweld ac osgoi pethau drygionus fel torcyfraith a damweiniau, neu o leiaf eu gwneud nhw'n llai difrifol, drwy ragddarparu gofalus (Diar 22:3; *w95 8/15 3-4*)

Ond yn aml, 'fedrwn ni ddim osgoi drygioni; rhaid ceisio trechu â daioni

'Dyw hynny ddim o angenrheidrwydd yn golygu derbyn ein camdrin yn oddefol

Mae daioni yn nodwedd gadarnhaol sy'n ei mynegi'i hun mewn gweithredoedd llesol (*it-1 986*)

Dowch inni 'nawr fanylu ar sefyllfaoedd pendant lle medrwn drechu drygioni â daioni [Nodyn i'r siaradwr: datblygwch yn ôl anghenion lleol]

Erledigaeth (2Tim 3:12)

Ei threchu drwy wrthod cyfaddawdu a sefyll yn gadarn â llawenydd er mwyn y newydd da (Act 5:27-29, 40-42; 1Pedr 4:12-14)

Gall gwneud daioni neu ddangos caredigrwydd achosi i'r erlidwyr ddod yn llai gelyniaethus hyd yn oed (Mth 5:44; Rhuf 12:17-21; *it-1 1051*)

[Adroddwch brofiad; *yb90 64* neu unrhyw enghraifft cyhoeddedig arall addas]

Marwolaeth anwylyn

Gall emosiynau cryf, cymysg godi yn dilyn marwolaeth anwylyn

Mae galar yn normal, yn llesol hyd yn oed (In 11:33-35)

Fodd bynnag, gall galar estynedig fod yn niweidiol, gan arwain at iselder difrifol (*we* 7)
Gallwn yn raddol “*drechu*” emosiynau affwysol negyddol drwy weithredu cyngor Ysgrifthurol ymarferol (*we* 14-19)

Hefyd gall ymddiried yn llwyr yn Nuw a gobeithio yn ei addewidion sicr helpu rhai i wella (*we* 26-31)

Wrth wneud daioni i eraill, 'rydym yn osgoi “cadw ar wahân” ac 'rydym yn profi'r dedwyddwch sy'n dod o roddi (Diar 18:1; Act 20:35)

Pan fo eraill yn ein tramgwyddo ni

Gall geiriau neu weithredoedd difeddwl eraill frifo (Diar 12:18)

Gallwn drechu teimladau drwg tuag at eraill wrth faddau'n llwyr neu wrth gymodi'n gyflym ac yn ysbryd cariad (Eff 4:26, 32; Col 3:12-14)

Mae trechu drygioni â daioni hefyd yn gallu cynnwys newid ein personoliaeth ein hunain fel nad ydym yn ein niweidio ein hunain nac eraill

Siarad ac agweddau niweidiol

Mae dicter, casáu, difrio, a dweud celwydd yn aflonyddu ar heddwch ac undod y gynulleidfa (Gal 5:15; Eff 4:31)

Wrth barhau i wneud cynnydd yn gwisgo amdanom y natur ddynol newydd, gallwn *drechu* siarad ac agweddau niweidiol wrth feddwl a siarad yn adeiladol (Col 3:8-10)

Camddefnyddio alcohol

Mae bod yn anghymedrol yn ein defnydd o alcohol yn medru achosi peryglon corfforol a moesol (Diar 23:20, 21, 29-35; *it-1* 656)

Wrth oryfed, 'rydym yn dod â drygioni arnom ein hunain

Trechu hyn gyda chymedroldeb neu lwyrymwrthod

Wrth ddibynnu ar Jehofah ac arfer hunan-ddisgyblaeth mae yfed yn gymhedrol yn bosib i lawer

Mae angen i'r rhai sy' 'nawr yn llwyr ddibynnu ar alcohol ymdrechu o ddifri' i ymryddhau oddi wrth y gaethiwed (g92 5/22 6-7)

Cwmni drwg

Mae'n dewis ni o ffrindiau yn sicr o ddylanwadu'n fawr ar ein hemosiynau a'n hymddygiad ni (Diar 22:24, 25; 1Cor 15:33)

Gall dewis cymysgu â'r rhai sydd heb fod yn weision Duw ddod â thrychineb (Gen 34:1-3; *w85* 6/15 31; *rs* 189)

'*Rydym yn trechu hyn* drwy ddewis ffrindiau adeiladol o fewn y gynulleidfa

Caru arian

Gall caru arian achosi i rywun anghofio egwyddorion y Beibl (Diar 28:20; 1Tim 6:9, 10)

Gall arwain at ddefnyddio dulliau busnes anonest neu hyd yn oed fanteisio ar ein perthynas â'r brodyr er mwyn elw ariannol

Mae Cristion yn *trechu* 'drygioni' o'r fath drwy gyflawni ymrwymadau ac osgoi dulliau amheus (Diar 21:6; Mth 5:37)

Mae'n trechu, hefyd, drwy fodloni ar y pethau angenrheidiol (Mth 6:33, 34; Heb 13:5)

GWOBWRWYON TRECHU DRYGIONI Â DAIONI (3 mun.)

Yn dod â dedwyddwch a hapusrwydd wrth fyw 'nawr

Cawn fodlonrwydd gwybod inni wneud y peth iawn a'n bod yn boddhau Duw (1Pedr 3:10-17)

Wrth drechu drygioni â daioni, 'rydym yn gogoneddu Duw

Gall drwgweithredwyr gael eu hysgogi gan ein hesiampl uniawn (1Pedr 2:12)

Yn y pen draw, bydd y rhai sy'n trechu drygioni â daioni yn cael bywyd tragwyddol a hapusrwydd yn wobwr (*Salm* 37:27)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnynt)